

## Ymddiriedolaeth Nant Gwrtheyrn

### Cyflwyniad y Cadeirydd i Gyfarfod Blynyddol 2022

Tristwch anferth ar ddiwedd y flwyddyn oedd colli Carl Clowes, sylfaenydd yr Ymddiriedolaeth, ein Llywydd Anrhydeddus ac aelod o Fwrdd yr Ymddiriedolwyr am gyfnod di-dor, yn dilyn salwch byr ac annisgwyl. Gweledigaeth Carl Clowes oedd troi pentref o adfeilion yn Ganolfan Iaith ffyniannus a'i egni a'i ddyfalbarhâd yn fwy na dim arall a drodd y freuddwyd yna'n ffaith. Talwyd teyrngedau haeddiannol a niferus iddo ar y cyfryngau a bu'n fraint i'r Nant fedru gweithredu fel lleoliad ei wasanaeth coffa.. Mae ein diolch ni, a'r genedl gyfan, iddo yn ddibendraw. 'Dan ni'n ei golli o'n fawr.

Os mai dyna oedd ergyd fawr diwedd y flwyddyn 2021 fe ddechreuodd y flwyddyn gyda'r drysau unwaith eto ar gau oherwydd cyfyngiadau Covid ac nid oedd yn bosibl ail-agor o gwbl tan ganol mis Ebrill. Roedd y tîm Addysg felly yn parhau gyda'r gwaith o ddarparu gwersi arlein yn hytrach nag ar y safle, gyda chefnogaeth bwysig gan y Ganolfan Genedlaethol Cymraeg i Oedolion. Roedd hi'n fis Gorffennaf cyn y gellid croesawu dysgwyr yn ôl i'r safle. Er hynny, mae'n rhaid dweud fod yr angen i arbrofi gyda dulliau dysgu newydd, wedi bod yn fuddiol. Yn y dyfodol bydd dysgu arlein a dysgu dwys ar y safle yn ddulliau fydd yn atgyfnerthu ei gilydd.

Ebrill hefyd oedd y dyddiad cyntaf y bu hi'n bosibl ail-agor y safle ar gyfer ymwelwyr dyddiol ac ar gyfer dathliadau, gan gynnwys priodasau. Felly mae'r gefnogaeth a gafwyd gan Lywodraeth Cymru i gyrff yn y maes diwylliant wedi bod yn allweddol i'r Nant, ochr yn ochr â chronfa ffyrlo Llywodraeth y DU. Roedd hi'n bosib oherwydd hynny cadw'r gweithlu i gyd ar y llyfrau i ail-afael mewn pethe pan ddaeth hynny'n bosibl.

Yn 2020, y flwyddyn flaenorol, oherwydd Covid, fe wnaethon ni golled o £151,886 , a byddai hynny wedi bod yn fwy sylweddol onibai am werthu'r tir ar Ynys Môn roedden ni wedi ei gael yn rhodd gan Ms Heulwen Richards. Yn 2021 fe drowyd y golled yna yn elw o £381,159 – gyda rhodd sylweddol arall o dros £20,000 yn dod i ni drwy ewyllys.

Roedden ni felly yn gallu buddsoddi ar wella adnoddau'r safle mewn mwy nag un ffordd. Gosod pypiau gwresogi awyr newydd ar gyfer rhes Trem y Môr oedd un o'r rhain ac mae hynny wedi sicrhau cysondeb tymheredd a dŵr poeth waeth beth fo'r tywydd.

Fe uwchraddiwyd dau o'r tai yn sylweddol, wrth i ni edrych ar beth ydi anghenion lletygarwch heddiw. Mae yna bedair uned arall yn cael eu haddasu eleni ac fe fydd angen i ni gytuno ar raglen o adnewyddu dros y blynyddoedd nesaf.

Datblygiad arall eithaf costus oedd gosod adlen uwchben y decin sy'n wynebu'r môr y tu allan i'r Neuadd. Roedd hwn yn ddefnyddiol iawn yn yr haul poeth diweddar ond mae hefyd yn ddefnyddiol fel cysgod rhag cawodydd o law.

Am y tro cyntaf, rydym bellach yn gofyn i ymwelwyr gyfrannu at gostau cynnal y safle a'r lôn, trwy dalu am barcio yn y Nant. £2 y dydd yw'r hyn rydym yn ei ofyn – rhesymol iawn yn ôl safonau heddiw, byddai llawer un yn ei ddweud. Da dweud bod y rhan fwyaf o ymwelwyr yn gwneud eu cyfraniad yn gydwybodol.

Cafwyd sawl storm ddrwg yn ystod y gaeaf a gwnaed cryn dipyn o ddifrod i'r coed sy'n amgylchynu'r lôn i lawr i'r Nant. Rydan ni'n gobeithio cyflwyno cynllun ar gyfer rheoli a datblygu ardal y goedwig yn fuan.

Digwyddiad o bwys oedd ail-godi meddygfa wreiddiol Llithfaen ar y safle. Mae'n dangos pa mor gyntefig oedd pethau yn y 50au a'r 60au. Yno hefyd gellir gweld fideo y Dr Carl Clowes yn adrodd ei hanes fel meddyg teulu yn y 70au ac yn disgrifio sut y daeth y freuddwyd o brynu ac adfer y Nant yn ffaith. Ac yn y Capel mae yna fideo newydd arall i'w weld gyda llais yr actor Rhys Ifans yn adrodd hanes y Nant o'r dyddiau cynnar hyd heddiw.

Hoffwn ddiolch o galon i Mair Saunders a'r holl staff am eu gwaith caled ar hyd cyfnod hynod o anodd. Diolch hefyd i'r Ymddiriedolwyr oll am eu mewnbwn, a'u harweiniad disglair yn y meysydd lle maen nhw'n arbenigo.

Mi fyddwn ni'n ethol aelodau'r Bwrdd yn y munud ond mae angen nodi bod ein Trysorydd, Clive Wolfendale wedi ymddiswyddo a hynny ar ol cyfnod o 19 mlynedd fel Ymddiriedolwr. Felly mi wna i gyfeirio fan hyn at ddau beth fyddai fel arfer yn rhan o Adroddiad y Trysorydd.

Dwi eisoes wedi nodi ein balchder fod colled 2020 wedi troi'n elw yn 2021. Mae hyn wedi golygu ein bod ni wedi gallu ad-dalu'r benthyciad o £200,000 a gafwyd yn 2009 gan Ymddiriedolaeth Linbury. Roedd hyn yn un o'r elfennau ariannol a wnaeth y datblygiadau mawr yn y cyfnod yna'n bosibl.

Yr ail beth ydi nodi mai'r nifer a gyflogwyd ar draws y flwyddyn oedd 34. Rydan ni'n falch iawn o'r cyfraniad mae'r Nant yn ei wneud i gyflogaeth yn yr ardal.

Fel arfer mae copiau o'r cyfrifon llawn am y flwyddyn ar gael yn y cyfarfod blynyddol. Felly ga' i nodi os bydd unrhyw aelod am gael copi ohonyn nhw wnewch chi gysylltu â Mair Saunders ac mi fydd yna gopi yn cael eu hanfon ymlaen atoch.

Yn y flwyddyn sy'n dod fe fyddwn yn parhau i gynllunio ar gyfer gwella a datblygu adnoddau'r Nant – o ran dysgwyr ac ymwelwyr eraill – er mwyn rhoi mwy fyth o resymau i ymweld a threulio cyfnod ar y safle godidog yma rydym yn gyfrifol am edrych ar ei ôl.

Huw Jones

23 Gorffennaf 2022